**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

# Ymchwiliad i Rywogaethau Goresgynnol Estron

Ionawr 2014

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8639
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorAC@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

## Cyflwyniad

1. Mae'r Pwyllgor wedi cynnal ymchwiliad byr i ddulliau o fynd i'r afael â Rhywogaethau Goresgynnol Estron yng Nghymru. Cytunwyd ar y cylch gorchwyl a ganlyn ar gyfer yr ymchwiliad:

- Asesu pa mor ddigonol yw'r data a'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd am ba mor gyffredin yw rhywogaethau goresgynnol estron yng Nghymru, a'u heffeithiau;
- Asesu'r camau y mae Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau perthnasol wedi'u cymryd hyd yma i fynd i'r afael â'r mater hwn; ac
- Ystyried cynigion y Comisiwn Ewropeaidd i gyflwyno Cyfarwyddeb a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i aelod-wladwriaethau gymryd camau cydgysylltiedig i fynd i'r afael â'r mater hwn.

2. Ar 9 Mai 2013, gwahoddwyd ystod o sefydliadau i ymuno â ni yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol i rannu eu safbwyntiau. Clywsom gan:

- Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili;
- Cyngor Abertawe;
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri;
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro;
- Ymddiriedolaethau Natur Cymru;
- Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru;
- Undeb Amaethwyr Cymru;
- Cyfoeth Naturiol Cymru; ac
- Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr.

3. Mae rhywogaethau goresgynnol estron yn peri risgiau amgylcheddol ac economaidd sylweddol i Gymru; ar y tir ac yn y môr. Mae ysgrifenyddiaeth rhywogaethau estron newydd Prydain Fawr yn amcangyfrif eu bod yn costio tua £1.7 biliwn bob blwyddyn. O ran niwed i'r amgylchedd, maent yn cystadlu yn erbyn rhywogaethau brodorol fel y Wiwer Goch a Llygoden y Dŵr. Gall rywogaethau goresgynnol estron, fel Briweg y Gors Awstralia, orlethu pyllau a llynnoedd, gan ymyrryd ag ecosystemau sensitif, a gallant arwain at

leihau bioamrywiaeth. Mae rhai rhywogaethau goresgynnol estron yn peri risg i iechyd pobl, fel Efwr Enfawr. Mae rhai eraill yn peri problemau llai amlwg, fel cynyddu'r risg o lifogydd drwy erydu glannau afonydd ac arafu cyrsiau dŵr.

4. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r Adolygiad parhaus sy'n mynd rhagddo o Strategaeth Prydain Fawr. Bydd yn bwysig i Gymru gael llais cryf yn y broses hon.

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

5. Mae'n glir o'r hyn a glywsom yn y cyfarfod bod enghreifftiau da o fynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol estron ledled Cymru. Roedd yr enghreifftiau a roddwyd inni yn cynnwys dull monitro Cyngor Abertawe; cynnydd partneriaeth Blaenau'r Cymoedd wrth fynd i'r afael â Chlymog Japan; a rhoddodd Cyfoeth Naturiol Cymru wybod inni am y ffordd y bu Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Sir y Fflint, ar y cyd â physgotwyr a grwpiau cymunedol, yn clirio Jac y Neidiwr o'r afon Alun ger yr Wyddgrug.

6. Er inni glywed enghreifftiau calonogol o arfer da, roeddent yn enghreifftiau lleol, ac nid oedd yn glir inni eu bod yn cael eu hystyried mewn cyd-destun cenedlaethol.

7. Clywsom fod y drefn o gasglu data yn amrywio o ran ansawdd a chwmpas daearyddol. Clywsom fod technoleg newydd yn cynnig cyfleoedd i gasglu data mewn ffyrdd gwahanol a bod hynny'n digwydd eisoes drwy brosiectau fel yr ap Plantlife ar gyfer ffonau clyfar.

8. Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid y gwnaethom siarad â hwy o'r farn y gallai'r hawl i gael mynediad i dir preifat helpu o ran mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol estron. Fodd bynnag, nid oedd yr undebau ffermio yn rhannu'r farn hon.

9. Mae'n hanfodol codi ymwybyddiaeth ynghylch pa mor gyffredin yw rhywogaethau goresgynnol estron a pha mor hawdd y gallant ledaenu. Nid oes llawer o bobl yn sylweddoli pa mor gyffredin yw'r broblem ac y gallai rhywogaethau y maent yn eu gweld bob dydd beri bygythiad o'r fath. Dylid gwneud mwy mewn ardaloedd sy'n hygyrch i bawb i dynnu sylw'r cyhoedd at rywogaethau goresgynnol a'r camau y dylent eu cymryd i osgoi gwasgaru'r hadau ar eu dillad a'u hesgidiau. Clywsom sut y mae'r ymddiriedolaethau natur yn darparu gwybodaeth drwy eu teithiau tywys a'u cyrsiau hyfforddiant; gellid defnyddio arbenigedd y gwirfoddolwyr hyn a phobl eraill, fel pysgotwyr, i godi mwy o ymwybyddiaeth.

10. Roedd y pwyntiau eraill a godwyd yn cynnwys:

- Mae angen dull o fynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol estron sy'n seiliedig ar ddalgylchoedd afonydd;
- Mae angen rhagor o gyllid ac adnoddau;

- Gallai lefelau stocio isel, a anogir gan rai cynlluniau amaeth-amgylcheddol, fod wedi arwain at danbori, a allai, yn anfwriadol, fod wedi helpu rhai rhywogaethau goresgynnol estron i ledaenu.
- Mae Glastir yn cynnwys targedu Rhododendron, ac awgrymodd rhai rhanddeiliaid y gellid ymestyn hynny i rywogaethau eraill; a
- Dywedodd yr undebau ffermio fod dyletswyddau o ran rhywogaethau goresgynnol estron wedi'u cynnwys yn y mesurau trawsgydymffurfio ac y byddai angen i fwy o bobl gymryd rhan yng nghynllun Glastir er mwyn rheoli rhywogaethau goresgynnol estron yn effeithiol.

## Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

11. Ar 13 Mehefin 2013, clywsom gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Rhoddwyd gwybod inni beth oedd safbwynt polisi diweddaraf Llywodraeth Cymru. Daeth dwy neges glir i'r amlwg yn y sesiwn dystiolaeth hon:

- Mae'n bwysig edrych ar yr heriau a berir gan rywogaethau goresgynnol estron o safbwynt eang. Mae risg o ganolbwyntio ar y rhywogaethau mwyaf cyfarwydd a'r rhai sydd wedi hen sefydlu, ar draul cyfleoedd i fynd i'r afael â bygythiadau llai cyfarwydd neu rai newydd; a
- Dim ond un swyddog penodedig sydd gan Lywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar y polisi o ran rhywogaethau goresgynnol estron ledled Cymru, ac nid oes cyllideb benodedig i fynd i'r afael a rhywogaethau goresgynnol estron.

12. Gall cael mynediad i dir fod yn rhwystr mawr i'r awdurdodau sy'n ceisio cymryd camau i gael gwared ar rywogaethau sy'n peri problem, os na fydd y tirfeddiannwr yn barod i gydweithio neu os na fydd modd cael gafael arno. Gwnaethom dynnu sylw swyddogion Llywodraeth Cymru at y mater hwn ac, yn benodol, a fyddai modd rhoi pwerau i Cyfoeth Naturiol Cymru gael mynediad i dir â rhywogaethau goresgynnol yno, a byddai'n dda gennym gael rhagor o eglurder ynghylch y mater hwn.

13. Cyhoeddwyd cynigion y Comisiwn Ewropeaidd ar ôl inni orffen casglu tystiolaeth. Fodd bynnag, mynegwyd rhai safbwyntiau mewn perthynas â'r potensial ar gyfer deddfwriaeth Ewropeaidd yn y maes hwn. Byddem yn croesawu ymateb gennych am y ddeddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig newydd, a manylion am unrhyw drafodaethau yr ydych chi neu'ch swyddogion wedi'u cynnal gyda Llywodraeth y DU ar y mater hwn.

14. Mae'r holl bapurau sy'n berthnasol i'r cyfarfodydd ar 9 Mai a 13 Mehefin; trawsgrifiadau gair-am-air; a recordiadau sain ar gael yn: http://www.senedd.cynulliadcymru.org/ieIssueDetails.aspx?IId=6591&Opt=3

## Casgliad

15. I gloi, credwn y bu camau gweithredu i fynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol estron yn effeithiol mewn rhannau o Gymru, ond mae'r darlun ledled y wlad yn anghyson. Mae angen cydgysylltu ymdrechion er mwyn asesu'n gywir maint y risg a berir gan rywogaethau goresgynnol estron, a chymryd camau i ymdrin â'r risg honno. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried yr adnoddau prin sydd ar gael i'r asiantaethau sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol estron. Drwy gydgysylltu ymdrechion, gellir targedu adnoddau prin ac, o bosibl, ymateb yn fwy effeithiol i rywogaethau goresgynnol estron yng Nghymru.

16. Cyfoeth Naturiol Cymru sydd yn y sefyllfa orau, yn ein barn ni, i arwain y ffordd o ran cydgysylltu'r gwaith o gasglu data a chymryd camau i fynd i'r afael â rhywogaethau estron. Drwy benodi Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad arweiniol, nid ydym yn disgwyl iddo ysgwyddo'r baich o fynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol estron ar ei ben ei hun. Ni ddylai'r ffaith bod sefydliad arweiniol yn cael ei benodi leihau'r angen am ddull cydweithredol. Yn ein barn ni, bydd cael sefydliad i arwain ymdrechion yr holl randdeiliaid perthnasol yn gwella'r effaith y gall y dull cydweithredol ei chael.

17. Mae'n bwysig ein bod yn gallu gweld y cynnydd sy'n cael ei wneud yng Nghymru a byddai'n dda gennym weld Llywodraeth Cymru neu Cyfoeth Naturiol Cymru yn llunio adroddiad rheolaidd a fyddai'n sylfaen i'r gwaith monitro hwn.

## Argymhellion y Pwyllgor

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn penodi Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad arweiniol i gydgysylltu'r gwaith o gasglu data a chymryd camau i fynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol estron yng Nghymru, gan gynnal cysylltiad ag Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr. Dylid gwneud hyn cyn gynted â phosibl, erbyn diwedd mis Mawrth 2014 fan bellaf.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn monitro perfformiad Cyfoeth Naturiol Cymru wrth fynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol estron. Dylid gwneud hyn ar adeg penodi Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad arweiniol.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y caiff Cymru ei chynrychioli fel rhan o'r Adolygiad o Strategaeth Prydain Fawr, a sut yr ymgysylltir â rhanddeiliaid yng Nghymru, erbyn diwedd mis Chwefror 2014.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar y goblygiadau i Gymru ar ôl i'r Adolygiad o Strategaeth Prydain Fawr gael ei gwblhau. Deallwn y dylai hynny ddigwydd tua diwedd 2014.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd bob blwyddyn i nodi'r cynnydd o ran mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol estron yng Nghymru, gan ddechrau ym mis Mawrth 2014.

**Argymhelliad 6.** Yng nghyd-destun yr ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Bil yr Amgylchedd sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried rhinweddau rheoli rhywogaethau goresgynnol estron ar sail dalgylchoedd afonydd wrth ddiffinio'r ardaloedd ar gyfer dull o reoli adnoddau naturiol sy'n seiliedig ar ardaloedd.

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y mae'n ystyried y broblem o ran cael mynediad i dir at ddibenion ymdrin â rhywogaethau goresgynnol estron, yn enwedig yng nghyd-destun Bil yr Amgylchedd sydd ar y gweill ac adolygiad y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon o ddeddfwriaeth ynghylch mynediad.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymateb i gynigion y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer rhywogaethau goresgynnol estron a'r goblygiadau i Gymru. Wrth wneud hynny, gofynnwn i'r ymateb hwnnw gynnwys manylion am drafodaethau a gafwyd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r cynigion hyn.